# DIM – DAFYDD CHILTON

## DISGRIFIO




Pa ansoddeiriau sy'n disgrifio pryd a gwedd y dyn yn y paragraff agoriadol?

Pa nodweddion a ddefnyddir er mwyn creu awyrgylch yn y paragraff hwn?

Sut naws mae'r awdur yn ei chreu yn y darn hwn?

Ydy'r defnydd o ferfau'n effeithiol ym Mharagraffau 4 a 5? Pam?

Manylwch ar ddefnydd yr awdur o'r synhwyrau.

Roedd yn ddyn cefnsyth yn ei dridegau hwyr. Eisteddai'n sgwâr ar gadair galed wrth fwrdd mawr y gegin lle'r oedd papurau newydd. Gorweddai ei ddwylo brown â'u cledrau ar i lawr o bobtu'r dalennau dieithr, heb eu cyffwrdd. Ond ar y papur oedd ei sylw.

Symudai ei lygaid yn araf ac yn ofalus ar hyd rhesi o luniau pen-ac-ysgwyddau a argraffwyd o un ochr y dudalen ddwbl lwyd i'r llall. Oedai ei olwg am eiliadau ar bob llun. Roedd yn astudio'r wynebau, yn dwyn i gof yr enwau. Ac yn darllen y broliant, byr, coffadwriaethol, o dan bob un.

Gafaelodd yn ochrau'r gadair a'i symud hi'n ôl, heb grafu'r llawr teils coch, glân, codi ar ei draed a cherdded draw at y sinc. Rhwng ei aeliau roedd rhigolau dwys duon ac roedd ei enau amlwg wedi eu brathu'n dynn.

Estynnodd y tegell a'i ddal dan y tap a throi dŵr iddo. Taniodd y nwy yn un o'r pedair coron ar ben y popty a rhoi'r tegell i dwymo. A throdd yn ôl at y sinc. Pwysodd arno, a chael ei ymyl yn oer dan ei ddwylo.

Yna, cododd ei olwg i edrych drwy'r ffenestr gwareli bach a'r ymylon calchog. Edrychodd o du ucha'r buarth cerrig a'i lwch, heibio'r ysgubor a'r certws ac i ochr arall y cwm, at fron Cader Berwyn. Edrychodd, a dal i edrych, ac yn raddol fe ymwthiodd mwynder y llechwedd melynwyrdd i'w feddyliau. Dechreuodd glywed ei dawelwch. Llaciodd ei dyndra fymryn…

Gwichiodd y tegell.